

## **YSGOL GYMUNEDOL CWRT HENRI**

Dryslwyn  
Caerfyrddin  
Sir Gaerfyrddin  
SA32 8RX  
Rhif Ffôn: 01558 668588  
E-bost: [admin@cwrtHenri.ysgolccc.org.uk](mailto:admin@cwrtHenri.ysgolccc.org.uk)



Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r copi hwn o lawlyfr Ysgol Cwrt Henri i'ch sylw.

Pwrpas y llawlyfr yw rhoi braslun o fywyd yr ysgol. Ynddo cewch ddatganiadau clir o bolisiau'r ysgol yn academiaidd a chymdeithasol. O'i ddarllen cewch brofi peth o naws yr ysgol y gellir ei brofi ymhellach wrth ymweld â'r athrawon a'r disgyblion wrth eu gwaith. [Mae croeso i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg].

Un o'r pethau y gall Ysgol Cwrt Henri ymfalchïo ynddo yw ei pherthynas agos â chartrefi'r disgyblion yn ei gofal. Hyderir y bydd y llawlyfr hwn yn gyfrwng pellach i atgyfnerthu'r berthynas honno.

### **YSGOL CWRT HENRI**

Mae Ysgol Cwrt Henri yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu ardaloedd Cwrt Henri, Dryslwyn, Llanfynydd, Derwen Fawr, Capel Isaac a Llangathen.

Lleolir yr ysgol yng nghanol prydferthwch dyffryn Tywi ym mhentref Dryslwyn, oddeutu hanner milltir o'r A40 ar heol Llanfynydd. Mae un prif fynedfa i'r ysgol a disgwylir i ddisgyblion ac ymwelwyr ddefnyddio hon. Rhaid i ymwelwyr barcio eu ceir ar yr heol y tu allan i'r ysgol.

### **STAFF YR YSGOL**

Pennaeth	Mr. M. Jones
Athrawon	Mrs. B. Howells
	Mrs. W. James
Anghenion Arbennig	Mrs. B. Howells
Cynorthwydd Dosbarth	Miss N. Davies
Athrawes gitâr	Mrs. E. Robins
Swyddog Gweinyddol	Mrs. S. Childs
Gofalydd	Mr G Williams
Cynorthwywyr awr ginio	Miss N. Davies
Cynorthwywyr Clwb Brechwast	Mrs R. Bowskill

## CORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOL

Mrs. S Collins	Cyfetholwyd (Cadeirydd)
Mrs. L. Evans	Awdurdod Llai
Mr. A. Jones	Cymunedol (Is-gadeirydd)
Miss H. Pugh	A.A.LI
Clr M Charles	A.A.LI
Mrs. B. Jones	Rhiant
Mr. M. Reardon	Rhiant
Mrs. H Rice	Rhiant
Mr. M. Jones	Pennaeth
Mrs. B. Howells	Athrawes
Mrs. S. Childs	Clerc

## ORIAU'R YSGOL

Clwb Brecwast : 8.00 y.b. – 8.40 y.b (Dim brecwast ar ôl 8.30)

### **Bore**

Cyfnod Sylfaen : 8.50 y.b. – 12.00 y.p.  
Adran Iau : 8.50 y.b. – 12.10 y.p.

### **Prynhawn**

Pawb : 1.00 y.p. – 3.10 y.p.

Yn y Cyfnod Sylfaen, treulir 22 awr yr wythnos yn dysgu.  
Yn yr adran Iau, treulir 23.5 awr yr wythnos yn dysgu.

Gofynnir i rieni sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac i beidio ag anfon eu plant i'r ysgol cyn 8.40 y.b. gan nad oes darpariaeth gofal swyddogol cyn hynny.

## DYHEADAU'R YSGOL

Mae awyrgylch yr ysgol yn un groesawgar a diogel. Mae pob plentyn yn cael y cyfle ac yn cael ei annog i gyflawni ei wir botensial, nid yn unig yn academiaidd ond yn gorfforol, yn esthetaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn ysbrydol.

Ein bwriad yw bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn llythrennog, yn hyddysg mewn cyfrifiaduron, yn gallu rhifo a siarad yn hyderus a chlr yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn barod i fynd yn eu blaenau ac i elwa o addysg uwchradd.

Caiff y plant gyfle i ddysgu canu o leiaf un offeryn cerdd.



Gwersi gitâr

## **NODAU AC AMCANION YR YSGOL**

- ❖ Creu ethos hapus, cartrefol a disgybliedig
- ❖ Sefydlu perthynas agos gyda'r rhieni a'r gymuned
- ❖ Datblygu meddyliau ymholgar, â'r gallu i holi a thrafod yn rhemygol
- ❖ Ennyn gwybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i fywyd a gwaith mewn byd sy'n newid yn gyflym
- ❖ Tyfu yn ddysgwyr annibynnol a symbylus sydd â'r gallu i chwilio am sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd
- ❖ Defnyddio iaith a rhif yn effeithiol
- ❖ Gwerthfawrogi campweithiau dynolryw mewn celf, cerdd, gwyddoniaeth, technoleg a llenyddiaeth
- ❖ Meithrin parch tuag at werthoedd crefyddol a moesol a dangos goddefgarwch tuag at grefyddau pobl eraill a'u ffordd o fyw
- ❖ Datblygu ymwybyddiaeth o hunanbarch a'r gallu a'r fyw fel oedolion annibynnol a symbylus, ynghyd â'r gallu i gydweithio
- ❖ Pwysleisio pwysigrwydd iechyd a datblygiad corfforol i'n bywydau
- ❖ Cynnig cyfle cyfartal i ferched a bechgyn gael cymryd rhan ymhob gweithgaredd
- ❖ Gweithredir polisi gwrth-hiliol yn yr ysgol bob amser

Trefnir y gwaith drwy'r ysgol ar gynllun dwy flynedd. Dyma'r themâu a astudir:-

	<b>Cyfnod Sylfaen</b>	<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
<b>Nadolig</b>	Chwedlau'r Ddraig / Enfys Trydan	Cestyll a Dreigiau / Y synhwyrâu
<b>Gwanwyn</b>	Albwm y Teulu / Sw Bach	Plant y Chwyldro / Coedwig Wylt
<b>Haf</b>	Carnifal / 'Drychwch! Tir!	Ardal Drychineb / Y Trochiad Mawr
<b>Nadolig</b>	Archwilwyr Cymuned / Hapusrwydd	Duwiau a Gladiatoriaid/ Esgyrn, gwaed a darnau gwaedlyd
<b>Gwanwyn</b>	Archarwyr / Popio i fyny	Gweledigaethau Newydd / 999 Argyfwng
<b>Haf</b>	Y byd mawr crwn / Archfarchnad	Asiantau Teithio / Gourmet Byd Eang

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ar gyfer plant tair i saith oed, yn cynnwys saith o feysydd dysgu, sef:

- Datblygiad Personol a chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol

- Dwyieithrwydd
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Mae'r meysydd dysgu hyn yn cyd-fynd a chydweithio â'i gilydd i greu cwricwlwm trawsgwricwlaidd, perthnasol ac ymarferol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws yr holl feysydd wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored.



Yn yr adran iau, addysgir rhan fwyaf o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn dull trawsgwricwlaidd thematig, sef Cymraeg; Saesneg; Gwyddoniaeth; Hanes; Daeryddiaeth; Cerddoriaeth; Technoleg; Addysg Grefyddol; Celf; Technoleg Gwybodaeth ac Addysg Personol a Chymdeithasol. Caiff rywfaint o waith Rhifedd ei gynnwys yn y gwaith thema, ond addysgir rhan fwyaf o'r pwnc ar wahân. Mae Addysg Gorfforol hefyd, rhan amlaf, yn cael ei ddysgu ar wahân.

### **POLISI IAITH**

Mae'r ysgol yn dilyn polisi dwyieithog.

Nod y polisi yw addysgu'r plant i fod yn gwbl ddwyieithog wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r ddarpariaeth a wneir yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru.

- Yn unol a pholisi iaith Sir Gaerfyrddin, y Gymraeg fydd prif gyfrwng bywyd a gwaith yn y Cyfnod Sylfaen er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Wedi cyfnod ymgartrefu'r plant yn eu mamiaith, cyflwynir y Gymraeg yn ystod y tymor cyntaf yn y Cyfnod Sylfaen.
- Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yn yr adran iau a chyflwynir y Saesneg yn swyddogol yn ystod Blwyddyn 3 er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, dysgir darllen ac ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg.

### **HWYR DDYFODIAID**

Rhoddir ystyriaeth a sylw arbennig i hwyr ddyfodiaid Saesneg eu hiaith. Trafodir ac ystyrir sefyllfa pob plentyn yn unigol yn ôl y galw. Caiff hwyr ddyfodiaid y cyfle i fynychu'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Bro Dinefwr yn Ffairfach. Cedwir gallu'r plentyn mewn golwg.

### **DISGYBLION Â CHANDDYNT DDATGANIAD**

I'r plant hynny yr asesir yn swyddogol i fod a datganiad arnynt ac y byddai cyflwyno ail iaith yn llesteirio eu datblygiad addysgol, yna ystyrir cyflwyno y famiaith yn unig i'r plentyn hwnnw.

### **TREFNIADAETH DYSGU**

Weithiau dysgir y plant fel dosbarth cyfan, yn enwedig pan gyflwynir testun newydd neu stori. Maent hefyd yn cael eu dysgu mewn sefyllfa grŵp yn ogystal ag yn unigol. Fel arfer, caiff y plant eu grwpio yn ôl eu hoedran, er gall hyn amrywio yn dibynnu ar allu unigolion. Ar adegau, caiff blant abl iawn weithio gyda grŵpiau hŷn.

Gwneir trefniadau grŵp amrywiol hefyd ar gyfer gwahanol amgylchiadau, megis rhuglder a gallu. Sicrheir cyfleoedd i blant hŷn weithio gyda phlant iau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath caiff blant hŷn gyfle i arwain grŵp a helpu plant iau. Pan yn gweithio mewn grŵp, anogir plant i gydweithio, i wrando ar ei gilydd, i barchu safbwyntiau eraill ac i aros eu tro, fel y gallant weithio yn effeithiol gyda'i gilydd.

Mabolgampau ysgol



### **YSTYRIED DECHRAU YN YR YSGOL / DERBYN DISGYBLION**

Derbynnir disgyblion i'r ysgol ar ddechrau'r tymor mae'r plentyn yn cael ei benblwydd yn bedair oed. Gofynnir i'r rhieni sydd â diddordeb mewn danfon eu plant i'r ysgol i gysylltu â'r pennaeth i drefnu amser cyfleus i ymweld â'r ysgol ac yna, os ydynt yn dymuno, i wneud cais am le yn yr ysgol, ar-lein i'r Awdurdod Derbyn. Bydd angen gwneud hyn erbyn 31ain o Ionawr 2017 os yw eich plentyn yn dechrau ysgol ym mis Medi 2017, Gwanwyn neu Haf 2018. Gofynnir am dystiolaeth dyddiad geni. Rydym yn hoffi gweld plant sy'n dechrau yn nosbarth y babanod yn mynychu'r ysgol am dri phrynhawn yn y tymor blaenorol er mwyn iddynt ddechrau cyfarwyddo â'r ysgol a'r staff.

Gellir hybu datblygiad plant yn yr ysgol drwy eu hannog i ddefnyddio llyfrau, pensiliau, creons a phaent gartref. Mae'n hanfodol fod oedolion yn darllen i'r plant, yn dweud storiâu wrthynt ac yn adrodd rhigymau iddynt, ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn sgysia. Dylent ymarfer y defnydd o rhifau drwy gyfrif gwrthrychau cyfarwydd.

Gall rhieni helpu eu plant drwy sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r tasgau canlynol cyn dechrau yn yr ysgol:

- defnyddio'r tŷ-bach yn iawn;
- gwisgo eu dillad;
- rhoi offer i gadw'n daclus;
- golchi dwylo cyn bwyd;
- defnyddio cyllell, fforc a llwy yn gywir;



- gofalu am lendid personol a deintyddol.

Yn ystod y blynyddoedd cynnar, Chwarae yn yr ardal allanol plant yn gwisgo dillad synhwyrol, e.e. gall anawsterau godi pe bai angen cynhyrta ar blant yn gyda'i ddillad er mwyn mynd i'r tŷ-bach. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r hyn sy'n ymarferol yn hytrach na'r hyn sy'n ffasiynol.

### **CYTUNDEB CARTREF/YSGOL**

Gofynnir i rieni arwyddo cytundeb Cartref Ysgol gyda'r nod o ddatblygu amgylchfyd gefnogol rhwng yr ysgol a'r cartref.

### **PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cyflwyno'n llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae plant sydd ag anawsterau dysgu yn derbyn cymaint o sylw unigol ag sy'n bosibl gan yr athro dosbarth. Gofynnir i rieni'r plant hyn drafod cynnydd y plant gyda'r athro dosbarth o leiaf unwaith bob tymor er mwyn monitro'r gwaith yn agos. Mae'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu rhoi ar y Cofrestr Addysg Ychwanegol ar ôl trafodaeth gyda'r rhieni. Mae cymorth ychwanegol ar gael i'r plant yma oddi wrth yr athro anghenion arbennig. Gellir gofyn am gyngor /asesiad gan y Seicolegydd Addysgol pan fo eisiau.

### **DISGYBLION ANABL**

Pe bai plentyn ag anabledd corfforol eisiau dechrau yn yr ysgol yna byddai rhaid edrych ar rai agweddau o safle'r ysgol gan y gallai mynediad fod yn broblem. Nod yr ysgol yw rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn - gweler yr adran 'Cyfle Cyfartal'.

Taith gerdded  
yr ysgol



### **PLANT SY'N DERBYN GOFAL**

Ceir polisi ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgol. Yr aelod o staff sy'n gyfrifol am Blant sy'n Derbyn Gofal yw'r Pennaeth. Y Llywodraethwr sy'n gyfrifol am Blant sy'n Derbyn Gofal yw Mr Alun Jones.

### **MESUR CYNNYDD**

Mae'r ysgol yn cadw cofnod o gynnydd pob disgybl ers iddo gychwyn yn yr ysgol. Cedwir ffeil ar gyfer pob plentyn yn cynnwys:-

- Asesiad Dechreuol;

- Manylion personol sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd;
- Gwybodaeth am ddiddordebau, cyflawniadau a phrofiadau personol o fewn yr ysgol a'r tu allan;
- Cofnod o gynnydd yn y cwricwlwm cyflawn, gan gynnwys meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen a phynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol;
- Darnau dewisiedig o waith ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ateb gofynion y llywodraeth o safbwynt Asesu Safonol.

Mae adroddiad blynyddol, sy'n rhoi manylion am gynnydd plentyn ymhob agwedd o'r cwricwlwm, yn cael ei gyflwyno i rieni ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i rieni drafod cynnwys yr adroddiad gydag athro/athrawes dosbarth y plentyn.

### **ADDYSG RHYW**

Mae Addysg Rhyw yn cael ei ddysgu fel rhan o waith thematig yr ysgol. Bydd gwybodaeth berthnasol a chwestiynau yn cael eu trafod gyda sensitifrwydd, gan gymryd i ystyriaeth oedran ac aeddfedrwydd y plant. Mae Polisi Addysg Rhyw ar gael yn yr ysgol ac os oes unrhyw riant am weld y polisi, yna dylent gysylltu â'r pennaeth. Gall rhieni wneud cais ysgrifenedig i eithrio eu plant o rhai agweddau o Addysg Rhyw sydd ddim yn gynwysiedig yn y cwricwlwm Cenedlaethol.

### **ADDYSG TGCh**

Mae wyth gliniadur a chwech i-pad ar gael yn yr ysgol, at ddefnydd y plant ac un gluniadur at ddefnydd gweinyddol. Mae tri bwrdd gwyn rhyngweithiol yn yr ysgol. Mae pob plentyn yn cael defnyddio rhain yn rheolaidd.

### **ADDYSG GREFYDDOL / ADDOLI AR Y CYD**

Nid yw'r ysgol yn gysylltiedig ag unrhyw enwad crefyddol. Mae addysg grefyddol yn yr ysgol yn dilyn maes llafur cytûn Sir Gaerfyrddin ac fe'i cynhwysir yng ngwaith thema'r ysgol. Mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plant rhag unrhyw agwedd o addysg grefyddol ac fe'u hanogir i drafod hyn gyda'r pennaeth.

Bob bore, mae'r ysgol yn addoli ar y cyd. Gofynnir i rieni nad ydynt am i'w plant fynychu gwasanaeth Cristnogol roi gwybod i'r pennaeth.

### **GWAITH CARTREF**

Mae gwaith cartref yn cael ei roi yn rheolaidd i blant Blwyddyn 1 - 6. Anfonnir llyfrau darllen gartre gyda'r plant a rhoddir gwaith rhif ac ysgrifennu sy'n gysylltiedig â gwaith dosbarth y plant. Disgwylir i'r gwaith cartref gyrraedd yr un safon â gwaith dosbarth y plentyn.

### **CWYNION**

Pe bai unrhyw gwyn gan rieni am gwricwlwm yr ysgol, addoli ar y cyd neu unrhyw fater arall, gofynnir yn garedig iddynt, yn y lle cyntaf, i drafod y mater gyda'r pennaeth fel bod ymgais yn cael ei wneud i ddatrys y broblem ar lefel ysgol cyn mynd â'r mater gerbron y Corff



Llywodraethol. Bydd y Corff Llywodraethol yn trafod unrhyw fater a ddaw ger eu bron ac yn cynghori ar sut y dylid gweithredu ymhellach os oes angen.

### **GWISG YSGOL**

Disgwylir i'r plant wisgo gwisg ysgol anffurfiol sy'n cynnwys crys-chwys glas tywyll â logo'r ysgol arno, trowsus neu sgert las dywyll a chrys polo gwyn. Mae'r crysau chwys a'r crysau polo ar gael o siop Clair Adams Schoolwear, 26 Heol y Brenin, Caerfyrddin, Ffôn - 01267 234455. Gwisg ymarfer corff: crys T gwyn, siorts du ac esgidiau addas.

### **YMARFERIAD TÂN**

Ceir ymarferiad tân bob tymor.

Dysgu am  
ddiogelwch tân



### **CLUDIANT**

O fewn dalgylch swyddogol yr ysgol, darperir cludiant rhad i'r ysgol ar gyfer plant sy'n byw dros ddwy filltir o'r ysgol.

### **CINIO YSGOL**

Mae prydau bwyd yn cael eu coginio yng nghegin yr ysgol yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol sydd hefyd yn penderfynu pris y cinio. O ran hwylustod, mae'n haws casglu'r arian cinio ar ddydd cyntaf yr wythnos ysgol ond gellir talu am y cinio yn ddyddiol os dymunir. Gall plant ddod â brechdanau os ydynt eisiau. Anogir rhieni sy'n teimlo eu bod yn gymwys efallai i dderbyn cinio rhad i ofyn am ffurflen gais o'r ysgol. Ni all yr ysgol ddarparu cinio rhad oni dderbynnir gwybodaeth swyddogol o'r Awdurdod Lleol.

### **CERDDORIAETH**

Disgwylir i bob plentyn o Flwyddyn 4 - 6 ddysgu canu'r recorder. Mae'r gwersi hyn yn rhan o'r cwricwlwm ac yn ddi-dal. Rhoddir cyfle hefyd i'r plant ddysgu canu'r gitâr. Mae'r gwersi hyn yn ddewisol a chodir tâl amdanynt - ar hyn o bryd, y tal yw £90 y flwyddyn. Pan fo plentyn eisiau gwersi gitâr yna rhaid iddo gymryd y gwersi am flwyddyn ysgol gyfan.

### **GWASANAETHAU CYNORTHWYOL**

Mae'r nyrs a'r deintydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae'r Seicolegydd Addysg a'r Therapydd Llafaredd yn ymweld â'r ysgol pan fo eisiau. Mae'r rhieni yn cael gwybodaeth am yr ymweliadau hyn ac mae croeso iddynt fynychu archwiliad meddygol a deintyddol eu plentyn. Mae swyddog o'r heddlu yn ymweld â'r ysgol i drafod testunau megis diogelwch ar y ffyrdd,



diogelwch personol a chyffuriau. Yn achlysurol, gwahoddir y ficer lleol ac arbenigwyr eraill i'r ysgol i rannu eu gwybodaeth a'u diddordeb gyda'r plant.

### **YMWELIADAU YSGOL**

Cynhelir nifer o ymweliadau ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol. Mae plant Blynyddoedd 3 - 6 yn mynd i bwl nofio lleol i gael gwersi nofio. Yr ysgol sy'n talu costiau teithio. Chwaraeir gêmiau yn erbyn ysgolion eraill o bryd i'w gilydd. Telir y costiau hyn o gronfa'r ysgol. Cynhelir ymweliadau addysgol eraill, sydd fel arfer yn gysylltiedig â thema'r tymor, gan fwyaf yn ystod oriau'r ysgol. Telir amdanynt o gronfa'r ysgol er y gofynnir i rieni wneud cyfraniad gwirfoddol. Gofynnir i rieni dalu costau llawn ymweliadau sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol.

Ymweliad ysgol â  
Dan yr Ogof



### **GOFAL BUGEILIOL / DIOGELWCH**

Wrth reswm, mae'r cyfrifoldeb cyffredinol ar ysgwyddau'r pennaeth a fydd yn dibynnu'n drwm ar gydweithrediad agos holl staff yr ysgol wrth ofalu am y disgyblion. Mae'r ysgol yn cadw cofnod o rifau ffon (cartref a gwaith) yr holl rieni a gwarcheidwaid rhag ofn y bydd damwain. Os oes angen triniaeth feddygol ar blentyn, gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r rhieni. Gall aelodau'r staff ddelio â man ddamweiniau, ond ceisir cyngor meddygol mewn achosion mwy difrifol.

Dylai rhieni hysbysu'r pennaeth os oes angen i'r plentyn gymryd meddyginiaeth yn yr ysgol e.e. triniaeth ar agyfer asthma, moddion gwrthfotig. A fyddai rhieni cystal â nodi mai dim ond meddyginiaeth angenrheidiol sy'n cael ei ddarparu yn yr ysgol. Dylid rhoi meddyginiaeth o'r fath i'r pennaeth neu i'r athrawes ddosbarth a fydd yn sicrhau bod y plentyn yn ei gymryd. Ni ddylid gadael unrhyw feddyginiaeth ym mag y plentyn yn ystod y dydd ar unrhyw gyfrif.

Bob dydd, bydd aelod o staff ar ddyletswydd am ddeg munud cyn ac ar ôl ysgol i oruchwylio'r plant a sicrhau eu bod yn gadael yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r rhieni roi gwybod i'r pennaeth os ydynt am i'w plant adael yn gynharach nag arfer.

Hefyd, rhaid i rieni drefnu casglu eu plant o dan y fath amgylchiadau. Pan fo plentyn yn absennol o'r ysgol rhaid rhoi gwybod i'r ysgol cyn gynted ag sy'n bosibl a gofynnir am nodyn o eglurhad.

Ni ddylai plant sy'n cerdded i'r ysgol neu sy'n dod gyda'u rhieni gyrraedd yr ysgol cyn 8.40 y.b. oni bai bod trefniadau wedi eu gwneud gyda'r pennaeth o flaen llaw. Os yw'r rhieni yn cael eu

rhwystro ac yn methu casglu'r plant, neu yn mynd i fod yn hwyr, yna dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r ysgol. Ar ôl oriau ysgol ni ddylid caniatáu i'r plant ddychwelyd i'r adeilad.

Yn ystod amser chwarae mae aelod o staff ar ddyletswydd ar yr iard, neu yn yr ysgol yn ystod tywydd garw. Yn ystod amser cinio, yr arolygwyr canol dydd sy'n gyfrifol am gadw llygad ar y plant.

Os oes rhaid cau'r ysgol yn gynnar oherwydd tywydd garw caiff y rhieni alwad ffôn yn gofyn iddynt drefnu i'r plant gael eu casglu. Ni fydd unrhyw blentyn yn cael gadael yr ysgol oni bai fod trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i sicrhau diogelwch y plentyn. Os na fydd yr ysgol yn cael ei hagor yn y bore oherwydd tywydd garw yna gwnaiff y pennaeth ei orau i hysbysu'r holl rieni dros y ffôn. Serch hynny, ni fydd hyn yn bosibl bob tro ac fe ddylai rhieni felly, os ydynt yn amau'r tywydd, gysylltu â'r ysgol cyn i'r plentyn adael ei gartref.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau diogelwch y plant yng ngofal pob athro/athrawes. Ni chaniateir i unrhyw blentyn fynd tu allan i ffiniau'r ysgol heb ganiatâd a sicrhewn fod gatiâu'r ysgol ar gau bob amser.

### **TREFN DIOGELU PLANT**

Mae gan yr ysgol bolisi Diogelu Plant. Y pennaeth sy'n gyfrifol am Ddiogelu Plant, ynghyd ag aelod penodedig o'r Corff Llywodraethol sef Mr Alun Jones. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir i sôn am y mater wrth y pennaeth. Gall y pennaeth ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol.

### **MYND YMLAEN I'R YSGOL UWCHRADD**

Mae Ysgol Cwrt Henri yn nalgylch Ysgol Gyfun Bro Dinefwr, Ffairfach. Mae'r Cyngor Sir yn darparu cludiant am ddim i Ysgol Gyfun Maes y Gwendraeth. Gall rieni ddanfôn eu plant i unrhyw ysgol gyfun o'u dewis ond iddynt fod yn gyfrifol am gludiant ac os oes lle yn yr ysgol. Mae llawlyfr ar gael o bob ysgol. Mae'r ysgolion cyfun yn hwyluso'r broses o symud trwy gynnal diwrnodau cyflwyno yn ystod tymor yr haf. Mae Ysgol Bro Dinefwr wedi ffurfio cysylltiadau clos gyda'r ysgolion sy'n ei bwydo.



Plant Bl. 3 a 4 yn mwynhau gwersi gymnasteg yn Ysgol Bro Dinefwr

### **DISGYBLAETH A RHEOLAU'R YSGOL**

Mae'r cyfrifoldeb terfynol am ddisgyblaeth ar ysgwyddau'r pennaeth, ond mae'n fater sy'n berthnasol i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol, gan gynnwys rhieni. Disgwylir i'r plant gydymffurfio â safonau penodol o ymddygiad. Fe'u hanogir i ystyried eraill a pharchu iawnderau ac eiddo pobl eraill.

Mae'r ysgol yn sefydliad hapus a disgybledig ond, pan fo galw, dilynir y drefn ganlynol:-

- Mân gamymddygiad - cerydd ar lafar gan yr athro/athrawes ddosbarth neu'r oedolyn ar ddyletswydd os yw'n digwydd yn ystod amser chwarae
- Camymddygiad mwy difrifol - cerydd ar lafar gan y pennaeth
- Camymddygiad difrifol neu barhaol - hysbysir rhieni'r plentyn a gofynnir iddynt ymweld â'r ysgol i drafod y mater gyda'r pennaeth a'r athrawes: gall hyn, o bosib, arwain at gwtogi rai o freintiau'r disgybl

Ymhlith rheolau'r ysgol mae'r canlynol:-

- Ni ddylid rhedeg y tu fewn i adeilad yr ysgol
- Nid oes hawl gan y plant i fynd i unrhyw ran o'r ysgol ar wahân i'r iard a meysydd penodedig ac eithrio ar gyfer gweithgareddau ysgol dan gyfarwyddyd athro
- Ni chaniateir i'r plant fynd allan i chwarae yn ystod tywydd garw
- Dylid nodi enw'r plentyn yn glir ar bob dilledyn
- Nid yw'r athrawon yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am bethau gwerthfawr mae plant yn eu dwyn i'r ysgol, megis gemwaith
- Ni chaniateir dod â losin, siocled na chreision i'r ysgol, ond caniateir dod â ffrwythau a bwydydd iach
- Caniateir seiclo ar yr iard yn ystod gwersi beicio yn unig.

## **CYFLE CYFARTAL**

Bydd pob plentyn yn derbyn cyfle cyfartal o fewn yr ysgol, gan ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol hyd eithaf ei allu. Bydd pob plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan ymhob agwedd o fywyd ysgol. Mae polisi Cyfle Cyfartal ar gael yn yr ysgol. Mae croeso i rieni ofyn i'r pennaeth os ydynt am weld copi ohono.

## **BWLIO**

Nid yw bwlio o unrhyw fath yn cael ei dderbyn yn yr ysgol. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Mae Polisi Atal Bwlio ar gael yn yr ysgol. Mae croeso i rieni ofyn i'r pennaeth os ydynt am weld copi ohono.

## **YMWYBYDDIAETH AM GYFFURIAU AC ALCOHOL**

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r heddlu i greu ymwybyddiaeth am gam-drin cyffuriau ac alcohol. Mae Polisi Cyffuriau ac Alcohol ar gael yn yr ysgol – gall rhieni ofyn am weld copi.

## **POLISI CODI A DILEU TALIADAU**

Mae'r ysgol yn codi tâl am rai gweithgareddau a hefyd yn gofyn am gyfraniadau oddi wrth rieni ar gyfer gweithgareddau achlysurol. Gweler yr adrannau ar 'Cerddoriaeth' ac 'Ymweliadau Ysgol'.

## **CYSYLLTIADAU Â RHieni**

Cynhelir cyfarfod rhieni / llywodraethwyr yn flynyddol. Gwahoddir pob riant i fynychu'r cyfarfod hwn.

Mae Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau (CRhFf) gweithgar yn yr ysgol sy'n helpu i godi arian i brynu deunydd addysgol ychwanegol i'r ysgol. Gofynnir ac anogir pob riant i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol a drefnir gan y CRhFf megis; nosweithiau bingo, ffeiriau Nadolig a Haf. Mae'r ysgol hefyd yn trefnu cyngherddau a gweithgareddau codi arian eraill. Hysbysir y rhieni am ddigwyddiadau o'r fath drwy gyfrwng cylchlythyr.



Mwynhau yn y Ffair haf

Mae gan yr ysgol gyfrif banc Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau yn ogystal â chyfrif cronfa'r ysgol. Caiff gronfa'r ysgol ei harchwilio'n flynyddol a rhoddir mantolen i bob riant. Cyflwynir copi hefyd i'r llywodraethwyr.

Cynhelir nosweithiau rhieni ym mis Chwefror/Mawrth ac ar ddiwedd y flwyddyn ysgol i roi cyfle i rieni drafod cynnydd eu plentyn gyda'r athro/athrawes ddosbarth. Anogir unrhyw riant sy'n poeni am gynnydd neu ymddygiad ei blentyn i siarad a'r athro/athrawes ddosbarth.

Anogir pob riant i ymuno yn ein 'Cytundeb Cartref / Ysgol'.

Anfonir adroddiad blynyddol o gynnydd disgyblion i rieni bob Gorffennaf.

## **GWEITHGAREDDAU YSGOL**

Mae'r plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaethau Diolchgarwch yng Nghapel Cross Inn ac Eglwys y Santes Fair.

Cynhelir cyngerdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae amrywiaeth o weithgareddau Nadolig yn cymryd lle.

Cynhelir gwersi mewn beicio diogel.

Mae'r plant yn cael cyfle yn rheolaidd i gystadlu mewn cwisiau a chystadlaethau Eisteddfodol amrywiol.

Cyflwynir tarian i un disgybl Blwyddyn 6 am y cywaith gorau ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol.

Caiff y plant hŷn gyfle i fynychu gwersiyll Llangrannog.

Mae'r ysgol yn ymuno gydag ysgolion eraill ar gyfer rhai gweithgareddau e.e. ymweliadau addysgol â chynrychiadau theatr mewn addysg, gwersi nofio.



Gwasanaeth Diolchgarwch  
yn Eglwys y Santes Fair



Gwasanaeth Nadolig  
yng Nghapel Cross Inn

## **CHWARAEON**

Cynhelir sesiynau o gêmiau amrywiol yn yr ysgol - defnyddir yr iard neu'r cae pan fo'r tywydd yn caniatáu.

Mae'r plant yn cystadlu mewn chwaraeon rhyng-ysgol ac yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau mabolgampau a gwyliau Campau'r Ddraig megis hoci, rygbi, athletau a rownderi. Caiff pob disgybl CA2 wersi nofio yng Nghaerfyrddin.

Gan nad oes neuadd fawr yn yr ysgol, manteisir ar arbenigedd hyfforddwy a lleoliadau y tu allan i'r ysgol e.e. gwersi ymarfer corff yn y gampfa yn Ysgol Bro Dinefwr a Choleg Prifysgol y Drindod.

Pan yn cystadlu, disgwylir i bob plentyn ennill yn wylaidd a cholli yn wrol.

Tîm rygbi'r ysgol





## **I GLOI**

Gobeithio bod yr wybodaeth uchod wedi bod o gymorth i chi. Fodd bynnag, gan all unrhyw lawlyfr adlewyrchu holl awyrgylch a threfniant ysgol, estynnir croeso cynnes i chi gysylltu â'r pennaeth i drefnu amser cyfleus i ddod i'n hysgol i'n gweld ni oll wrth ein gwaith.

### **PRESENOLDEBAU**

Canran presenoldeb yn ystod y flwyddyn ysgol 2015-2016 : 95.63%

Mae'r plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac nid yw triwantiaeth yn broblem. Mae'n bwysig iawn i bob plentyn fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Erfynnir ar deuluoedd i geisio trefnu gwyliau yn ystod gwyliau ysgol. Fodd bynnag, os oes rhaid cymryd gwyliau yn ystod amser ysgol, gofynnir yn garedig i chi siarad â'r pennaeth cyn gwneud trefniadau.

Absenoldebau heb ganiatâd yn ystod y flwyddyn ysgol 2015-2016 :

Meithrin	0
Dosbarth Derbyn	1
Blwyddyn 1	1
Blwyddyn 2	0
Blwyddyn 3	0
Blwyddyn 4	1
Blwyddyn 5	1
Blwyddyn 6	0



Plannu blodau a llysiau yng ngardd yr ysgol



Dysgu am ddiogelwch y ffyrdd gyda Gari Gofal



Gweithgareddau celf



Gweithgareddau Campau'r Ddraig